## ADRAN RHEOLEIDDIO

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **DYDDIAD:** | 25 Ebrill 2016 |
| **TEITL:** | Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) – tir rhwng Gilfach Goed a Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Abersoch |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Ystyried cadarnhau'r GDC ar y safle uchod. |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| **GWEITHREDU:** | Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn yr argymhelliad |

---

**1. Disgrifiad:**

1.1 Rhoddwyd Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro ar 4 coeden (2 cypreswydden a 2 ffynidwydd) yn y lleoliad a ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm â'r adroddiad yma ar 19 Tachwedd 2015 yn dilyn ymweliad ac asesiad o'r coed gan swyddog o Uned Bioamrywiaeth y Cyngor.

1.2 Mae'r coed wedi eu lleoli ar benrhyn Penbenar yn Abersoch, rhwng eiddo a adweinir fel Gorse Bank a Gilfach Goed. Maent yn meddiannu llecyn gwag o dir preifat cyfochrog a safle ble mae caniatâd cynllunio wedi ei roddi ar gyfer adeiladu tŷ annedd yn 2013, ac wedi ei adnewyddu ar y 10 Chwefror 2016.

1.3 Gwnaethpwyd asesiad o'r coed gan ddefnyddio sustem TEMPO (*Tree Evaluation Method for Preservation Orders*) ac mae'r coed wedi sgorio cyfanswm o 22 pwynt. Mae'r sustem yma yn nodi y bydd unrhyw goeden neu goed sydd yn sgorio mwy nac 16 pwynt yn teilyngu eu diogelu.

**2. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

2.1 Nid oes hanes cynllunio blaenorol i'r safle sydd yn destun y Gorchymyn, ond mae yn fuddiol nodi hanes cynllunio'r safle cyfochrog er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad a wnaethpwyd gyda perchnogion y safle/ tirfeddianwyr cyfochrog.

2.2 C13/0198/39/AM. Tir Rhwng Gilfach Goed & Gorse Bank, Lon Pen Cei, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL537AY. Adeiladu tŷ annedd a chreu ffordd fynediad newydd i Lon Pencei. Caniatáu 11.04.13.

2.3 C15/1328/39/AM. Tir Rhwng Gilfach Goed & Gorse Bank, Lon Pen Cei, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL537AY. Adnewyddu caniatâd amlinellol C13/0198/39/AM am dy annedd a ffordd fynediad newydd. Caniatáu 10.02.16.

**3. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi gosod gorchymyn diogelu ar y coed |
| Aelod Lleol: | Cefnogi |

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd tirfeddianwyr / trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn cyflwyno sylwadau ar y gorchymyn diogelu dros dro. Mae'r asesiad isod yn trafod y sylwadau hynny yn fwy manwl, ond yn gryno nodwyd: |

- Bod y coed o fewn pellter disgyn i leoliad y ty annedd bwriadedig cyfochrog y mae caniatâd amlinellol ar ei gyfer;
- Pryder ynglŷn â choeden T3 yn disgyn ar Gorse Bank;
- Tebygolrwydd o hinsawdd fwy stormus i'r dyfodol;
- Coed ddim yn frodorol i'r ardal a pharodrwydd i blannu coed eraill yn lle'r rhai sydd yn destun y gorchymyn diogelu;
- Coed cyffelyb wedi disgyn yn ystod stormydd yn 2014 gan greu difrod i Gilfach Goed;
- Pryder bod y coed dan ystyriaeth yn beryglus ac yn dymuno i'r Cyngor gael barn arbenigol nad oes perygl iddynt ddisgyn;

Yn ychwanegol i'r uchod mae un o'r llythyrau yn gwneud y sylwadau canlynol:-

- Nad yw coeden T1 yn dylanwadu datblygu'r llain adeiladu gyfochrog gan ei bod wedi ei lleoli 14 medr o leoliad bwriadedig y ty gyda dim newid lefelau tir niweidiol;
- Nad yw coeden T4 yn dylanwadu'r datblygiad cyfochrog arfaethedig na'r fynedfa i'r llain;
- Bod coeden T2 gyda gwyriad cynyddol tua'r dwyrain gyda'r goron yn gogwyddo 5.5 medr dros y llain adeiladu gyfochrog. Mae'r goeden angen gwaith ffurfio i'r goron ac angen ei thorri yn ôl os am osgoi cais o'r fath yn y dyfodol.
- Bod coeden T3 yn mesur uchder dros 25 medr ond y gellir ei chadw gan nad oes problem gyda diogelu ei gwreiddiau, er bod ffafriaeth i'w gadael allan o'r gorchymyn.

Yn ogystal â hyn, mae cyfeiriad yn y llythyr at faterion yn ymwneud a chais C15/1328/39/AM i adnewyddu'r caniatâd cynllunio amlinellol ar y llain gyfochrog, ond ni ystyrir eu bod yn berthnasol i ystyriaeth y Pwyllgor o'r gorchymyn gwarchod coed hwn.

## 4. Asesiad

4.1 Rhoddwyd y gorchymyn diogelu coed dros dro ar y coed o ganlyniad i Wasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor dderbyn galwad ffôn ym mis Tachwedd 2015 yn holi os oedd gorchymyn diogelu yn bodoli arnynt gan fod contractwr torri coed wedi ei alw allan i roddi pris ar gyfer eu torri. Roedd yn bryderus am fodolaeth gorchymyn gan eu bod yn amlwg ac yn sefyll allan yn y tirlun.

4.2 Archwiliwyd y coed gan swyddog o'r Uned Bioamrywiaeth.. Nodwyd bod y coed yn amlwg ar y penrhyn wrth yrru i mewn i'r pentref o ochr Llanbedrog, a bod hefyd nifer o goed wedi eu torri i lawr yn y rhan yma o'r pentref dros y blynyddoedd. Ystyriwyd felly ei fod yn holl bwysig bod y coed sydd yn weddill yn cael eu diogelu gan eu bod yn ffurfio rhan o olygfeydd i mewn ac allan o'r pentref, ac ei fod yn bwysig eu diogelu i'r dyfodol oherwydd eu lleoliad amlwg yn y tirlun.

4.3 Defnyddiwyd system TEMPO i sgorio'r coed, a chafwyd sgôr o 22. Mae'r system yma yn cymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau. Mae rhan gyntaf yr asesiad yn cymryd i ystyriaeth cyflwr ac addasrwydd y coed ar gyfer gorchymyn, eu hoes byw, eu hamlygrwydd cyhoeddus cymharol, a ffactorau eraill megis a ydynt yn grŵp o goed sydd yn bwysig oherwydd eu cydlyniad. Mae ail ran yr asesiad yn ymwneud a buddioldeb gwneud gorchymyn o'r fath. Nodir bod y coed wedi sgorio yn uchel ar gyfer y rhan gyntaf, gyda sgôr o 17. Yn ychwanegol i hyn cafwyd uchafswm sgôr o 5 ar gyfer yr ail ran, gan fod bygythiad di-oed i fodolaeth y coed. Nodir bod y cyfanswm sgôr o 22 ymysg yr uchaf o roddwyd i unrhyw goed a aseswyd drwy ddefnyddio'r system yma, ac mae unrhyw sgôr dros 16 yn bendant yn teilyngu gorchymyn diogelu coed. Nodwyd bod y coed mewn cyflwr da, gydag oes o rhwng 40 a 100 mlynedd. Maent hefyd yn goed sylweddol sydd yn gwbl weladwy i'r cyhoedd.

4.4 Yn sgil rhoddi gorchymyn dros dro ar y coed, bu i swyddog o'r Uned Bioamrywiaeth gyfarfod gydag un o'r llythyrwyr ac arbenigwr coed ar y 21 Rhagfyr 2015 i drafod y coed ymhellach. Canlyniad y cyfarfod hwnnw oedd i'r swyddog ddod i gasgliad nad oedd coeden T2 mewn cyflwr cystal â'r coed eraill, a'i bod yn cael ei chysgodi yn drwm gan y coed hynny, yn ogystal ag yn gogwyddo yn drwm dros y llain datblygu gyfochrog. Roedd yn anochel y byddai cais yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y dyfodol agos i ymgymryd â gwaith sylweddol i goron y goeden oherwydd ei fod yn gogwyddo dros y llain gyfochrog sydd ar werth ar hyn o bryd. Deallir bod y tir cyfochrog ar werth ond pwysleisir nad yw hyn yn ystyriaeth faterol pan yn penderfynu cadarnhau gorchymyn neu beidio. Nid yw'r coed sydd yn destun y gorchymyn dros dro wedi eu lleoli o fewn safle'r caniatâd cynllunio amlinellol.

4.5 Nodir pryderon trigolion cyfagos ond nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno i ddangos bod y coed mewn cyflwr gwael neu yn beryglus, ac mae'r asesiad TEMPO yn nodi bod y coed mewn cyflwr da ar y cyfan. Yn ogystal â hyn, nodir mai honiad yn unig yw'r tebygolrwydd i gael hinsawdd fwy stormus yn y dyfodol, ac nid oes unrhyw gyfeiriad ychwaith at gyflwr y coed blaenorol a ddaeth i lawr yn 2014. Nid yw honiadau yn unig yn ddigonol i atal y Cyngor rhag ystyried cadarnhau gorchymyn dros dro, gyda neu heb newidiadau. Os byddai sail i honiadau o'r fath, yna dylent fod wedi eu selio ar dystiolaeth fel y gellir ystyried peidio cadarnhau'r gorchymyn.

## 5. Casgliadau:

5.1 Penderfynwyd rhoddi gorchymyn diogelu dros dro ar y coed gan fod y Cyngor wedi derbyn ymholiad i dorri'r coed sydd mewn cyflwr da ac yn gorwedd mewn man amlwg yn y tirlun, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i fwynderau gweledol ac edrychiad yr ardal o'u cwmpas. Maent yn bwysig oherwydd prinder coed aeddfed eraill yn yr ardal a chafwyd sgôr o 22 wrth sgorio'r coed gan ddefnyddio'r system TEMPO.

5.2 Yn dilyn asesiad pellach o'r coed gan swyddog o'r Uned Bioamrywiaeth, mae'r Gwasanaeth Cynllunio o'r farn y dylid ystyried peidio cynnwys coeden T2 yn y gorchymyn terfynol oherwydd bod y goeden yma yn gogwyddo dros y safle

cyfochrog sydd gyda hawl cynllunio amlinellol, ac yn debygol o fod yn destun cais i wneud gwaith sylweddol iddi yn y dyfodol agos.

**6. Y broses cadarnhau**

6.1 Mae pedwar dewis gan y Pwyllgor yn dilyn ystyried yr adroddiad á'r sylwadau a dderbyniwyd ar gyflwyno gorchymyn dros dro, sef:-

1. Cadarnhau'r Gorchymyn fel y mae, heb newidiadau;
1. Cadarnhau gyda newidiadau;
2. Peidio cadarnhau; neu
3. Cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

6.2 Nid oes gwrthwynebiad sylfaenol i'r gorchymyn ei hun, ond mae pryder wedi ei nodi am un goeden yn benodol, sef coeden T2. Nodwyd uchod bod y Swyddog Bioamrywiaeth wedi cael cyfarfod gydag arbenigwr coed oedd yn gweithredu ar ran y perchennog tir. Yn sgil y cyfarfod hwnnw, daethpwyd i'r penderfyniad bod sail ddigonol i ystyried tynnu coeden T2 o atodlen y gorchymyn gan ei bod yn cael ei chysgodi yn drwm gan y coed eraill, ac yn gogwyddo dros y safle datblygu cyfochrog ble mae caniatâd cynllunio amlinellol yn bodoli am dy annedd.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Cadarnhau'r gorchymyn gyda newidiadau ac eithrio coeden T2 o'r Atodlen i'r gorchymyn ei hun.